Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Tudweiliog
# Tudweiliog
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 8ND

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Tudweiliog

Lleolir Ysgol Gynradd Tudweiliog ym mhentref Tudweiliog, tua phedair milltir o Nefyn yn awdurdod lleol Gwynedd. Yn ogystal â phlant y pentref, mae plant o bentref Llangwnnadl yn mynychu'r ysgol. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 57 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 10 oed meithrin. Mae dau ddosbarth oed cymysg yn yr ysgol.

Tros dreigl tair blynedd, tua 1% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol, sy'n 18%. Mae tua 80% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 14% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is na'r canran cenedlaethol, sy'n 21%.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 1996. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r ysgol yn gymuned groesawgar sy’n ymfalchïo yn ei Chymreictod. Nodweddion arbennig yw’r ethos teuluol sy’n bodoli i sicrhau bod y disgyblion a’r staff yn gofalu’n naturiol am ei gilydd a’r berthynas waith lwyddiannus rhwng y disgyblion a’r staff. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol, yn ymddwyn yn dda iawn ac yn meddu ar agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn dangos balchder yn eu hysgol a’u hiaith ynghyd â gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol.

Mae’r athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a diddorol i’w disgyblion, sy’n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt yn dda. Mae hyn yn eu hysgogi i ddysgu’n llwyddiannus ac, o ganlyniad, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni’n dda.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy’n rhoi cyfeiriad strategol clir i’r ysgol. Mae’r holl staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio’n agos ac yn effeithiol fel tîm. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth drylwyr o’r ysgol ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i’w herio a’i dwyn i gyfrif am safonau.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion cyfnod allweddol 2 yn fwy ymwybodol o beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith eu hunain

A2 Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac i weithio'n annibynnol

A3 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion cyfnod allweddol 2 i drin data ar draws y cwricwlwm

A4 Rhoi trefniadau clir ar waith i gyflawni dyletswyddau arwain yn absenoldeb y pennaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae medrau cyfathrebu rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn hyderus ar lafar ac yn deall bod gwrando ar eraill yn cyfrannu'n bwysig at eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n huawdl am eu gwaith gan ddefnyddio geirfa eang a chywir. Enghraifft dda o hyn yw defnydd disgyblion o bypedau i gynnal sgwrs ddychmygol rhwng y falwen hy a'r morfil cryf. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfrannu'n effeithiol i drafodaethau dosbarth, er enghraifft wrth drafod hanes llongau oedd yn glanio ym Mhorth Ysgaden. Ar frig yr ysgol, maent yn cydweithio'n effeithiol mewn grŵp wrth gyflwyno cerdd am longddrylliad yr agerlong 'Stuart'. Maent yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn trafod eu gwaith yn ddeallus gydag aeddfedrwydd, er enghraifft wrth drafod bywyd Grace Darling.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da yn gyson. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau'n gywir ac yn dechrau adnabod geiriau'n hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant ac yn trafod cynnwys eu llyfrau yn aeddfed. Mae'r rhan fwyaf yn dilyn cyfarwyddiadau yn ofalus mewn gwersi, er enghraifft wrth ymchwilio i sawl gram o dywod sydd ei angen i suddo cwch bach. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ddeallus yn y ddwy iaith. Maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac aeddfed i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Enghraifft dda o hyn yw sut mae disgyblion yn cywain gwybodaeth am hanes llongau fu'n cludo nwyddau i'r ardal yn y ddeunawfed ganrif.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus gan ddefnyddio ystod effeithiol o frawddegau syml i ddisgrifio nodweddion y Gwanwyn, er enghraifft. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol ac yn ymestyn eu syniadau'n effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu rheolau ar sut i ymddwyn ar y traeth ym Mhwllheli. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus ac, erbyn diwedd y cyfnod, maent yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod eang o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd i olrhain hanes Rosa Parks. Maent yn defnyddio idiomau a chymariaethau perthnasol yn effeithiol i gyfoethogi'u hysgrifennu, er enghraifft wrth adrodd am fywyd plentyn mewn ysgol yng Nghymru yng nghyfnod y 'Welsh Not'.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn wrth symud drwy'r ysgol. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn hyblyg mewn amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon mewn meysydd a phynciau eraill. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio eu medrau'n hyderus i ddatrys problemau,

er enghraifft wrth gyfrifo cost gwahanol fwydydd mewn marchnad yn yr India neu wrth gymharu tymheredd rhwng Cymru â Phatagonia. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn adalw ffeithiau rhif i gof yn gyflym ac yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i ddatrys problemau, er enghraifft wrth gyfrifo prisiau brecwast mewn gwesty. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau trin data i gofnodi eu gwaith, er enghraifft wrth archwilio pa mor gyflym mae rhew yn toddi o dan amodau gwahanol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob un disgybl yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio llechi electronig yn effeithiol, er enghraifft wrth gofnodi eu hymweliad â'r bad achub lleol. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio cronfa ddata syml i gofnodi maint traed aelodau'r dosbarth, er enghraifft. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth. Maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus i gyflwyno'u canfyddiadau, er enghraifft wrth adrodd hanes llongddrylliad ym Mhorth Tŷ Mawr. Ar frig yr ysgol, maent yn datblygu'u medrau codio yn gelfydd i greu rhaglen animeiddio syml. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data i'w galluogi i ddilyn trywyddau ymholi penodol ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac maent yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos gofalgar, cynhwysol a chynhaliol sy'n bodoli yno. Maent yn groesawgar, yn foesgar ac yn gwrtais iawn wrth gyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Un o nodweddion arbennig yr ysgol yw'r ffordd garedig ac annwyl iawn y mae llawer o'r disgyblon hŷn yn gofalu am ddisgyblion iau. Mae gan bob disgybl 'Ffrind Ffeind' sy'n gymorth iddynt ymgartrefu yn yr ysgol ac i ddod i adnabod a ffurfio perthynas gadarn gyda disgyblion hŷn. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cynorthwyo disgyblion iau yn ystod eu taith i'r pwll nofio lleol. Mae bron pob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd a chaiff hyn ei adlewyrchu'n glir yn eu presenoldeb da a chyson.

Mae bron pob un yn arddangos balchder mawr yn eu hysgol, eu cymuned a'u Cymreictod. Maent yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn eu defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio gyda'i gilydd. Mae bron pob un yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned, er enghraifft wrth gefnogi'r eisteddfod leol, a chyfrannu tuag at gyngherddau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o'u diwylliant yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder a pherthyn yn eu cymuned. Amlygir hyn yn y berthynas agos sy'n bodoli rhwng y disgyblion a grŵp o henoed sy'n ymweld â'r ysgol yn wythnosol i gael cinio yn eu cwmni.

Mae ymddygiad bron pob un disgybl mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf yn dangos ymagweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n gweithio'n gytûn ac yn cadw ar dasg dros gyfnodau estynedig. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o drefniadaeth dosbarth ac yn symud o gwmpas yr ardaloedd amrywiol yn hyderus ac annibynnol. Maent bob amser yn barod i ddysgu, yn canolbwyntio'n dda, ac yn dangos gwydnwch pan fyddant yn wynebu heriau newydd.

Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Mae hyn yn eu hymrwymo a'u cymell yn llwyddiannus i ddysgu. Fodd bynnag, nid yw eu rôl wrth arwain eu dysgu eu hunain, i wneud penderfyniadau nac i fod yn ddysgwyr annibynnol wedi datblygu'n llawn. Lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n gwybod sut i fynd ati i wella eu gwaith eu hunain yn annibynnol.

Mae llais y disgybl, trwy waith pwyllgorau'r ysgol, yn datblygu'n briodol. Mae'r disgyblion sydd ar yr amrywiol bwyllgorau a grwpiau fel y 'Grŵp Gwyrdd', y 'Llysgenhadon Efydd' a'r 'cyngor ysgol' yn ymwneud â'u gwaith yn frwdfrydig. Enghraifft dda o hyn yw ymgyrch llwyddiannus y 'Grŵp Gwyrdd' i gael gwared â gwellt plastig yn ystod amser llaeth. Mae'r disgyblion yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus trwy amrywiaeth o weithgareddau codi arian. Mae hyn yn datblygu eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill yn effeithiol.

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith gadarnhaol ymarfer corff ar eu hiechyd. Maent yn gwneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â'u diet, er enghraifft wrth ymweld â'r siop ffrwythau dyddiol sy'n cael ei chynnal gan y disgyblion eu hunain. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff fel y clwb 'Dal i Fynd' sy'n cyfrannu'n dda at eu lles a'u ffitrwydd. Mae bron pob un yn deall pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae staff yn sefydlu perthynas waith agos a chlòs gyda'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda, ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt tra'u bod yn gweithio, a rhyngweithio gyda'u cymheiriaid. Mae'r berthynas waith hyfryd sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli, â'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar coeth. O ganlyniad, mae gan lawer o'r disgyblion hŷn fedrau trawsieithu cadarn ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae pwyslais clir ar ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar Gymru a'r etifeddiaeth Gymreig. Mae athrawon yn darparu ystod o brofiadau gwerthfawr i'r disgyblion, sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol yn llwyddiannus. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu am yr ardal leol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion ar lwybr yr arfordir a thraddodiad morwrol yr ardal. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at eu dealltwriaeth o'u hardal leol, eu hanes a'u diwylliant. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hetifeddiaeth a'u Cymreictod.

Mae athrawon yn darparu amrediad o brofiadau dysgu ymarferol a chyfoethog i'w disgyblion. Maent yn cyflwyno themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol a dychmygus sy'n ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y rhan fwyaf ohonynt ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn effeithiol. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n gadarn. Mae pwyslais clir ar feithrin annibyniaeth a datblygu medrau disgyblion trwy ddarparu profiadau ymarferol ac ysgogol iddynt. Yn

ddiweddar, mae athrawon cyfnod allweddol 2 wedi dechrau addasu'r cwricwlwm i fodloni dibenion y cwricwlwm newydd i Gymru trwy gynnig cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u gwaith. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agwedd disgyblion tuag at eu dysgu. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar ddeilliannau disgyblion.

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn arwain sesiynau dysgu'n effeithiol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel, maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, a gan amlaf, yn sicrhau rhediad da i'r sesiynau. Maent yn cysylltu eu gwersi'n effeithiol â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus. Mae cydweithio pwrpasol rhwng athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth dda i alluogi disgyblion i gwblhau eu tasgau ac elwa o ohonynt yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae cydbwysedd da rhwng profiadau sy'n cael eu harwain gan oedolion a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, mae tueddiad, ar adegau, i athrawon yng nghyfnod allweddol 2 arwain gormod ar y gweithgareddau ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd da iddynt ddefnyddio eu medrau TGCh i gywain a chyflwyno gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau TGCh, er enghraifft i greu cronfeydd data a dadansoddi tystiolaeth er mwyn dilyn trywyddau ymholi penodol, wedi datblygu'n ddigon effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau'r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar effeithiol i ddisgyblion ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a myfyrio ymhellach ar sut i wella'u gwaith. Maent yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn meini prawf llwyddiant. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfle i ddisgyblion werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a theuluol sy'n hyrwyddo ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn hynod effeithiol. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad da a chwrteisi'r disgyblion a'u hymagwedd gadarnhaol at ddysgu. Mae'r ysgol yn weithgar iawn yn y pentref a'r gymuned ehangach ac yn annog disgyblion yn gyson i ddangos balchder yn eu hysgol a'u cymuned leol. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cymunedol ac ymweliadau lleol. Enghraifft dda o hyn yw'r prosiect 'Meddiannu'r Amgueddfa' lle caiff y disgyblion gyfle i gydweithio'n agos ag amgueddfa forwrol leol a chynnal sesiynau yn yr amgueddfa efo'r ymwelwyr. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Trwy astudio hanes Martin Luther King a Rosa Parks, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu dealltwriaeth dda o degwch a hawliau dynol. Mae hyn yn hyrwyddo eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn

cymdeithas yn effeithiol. Trwy fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli a dysgu am egwyddorion crefyddau amrywiol, mae'r staff yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion brofi elfennau ysbrydol a moesol. Cefnogir hyn yn dda trwy drefnu i'r disgyblion ymweld â mosg a'r eglwys gadeiriol fel rhan o'u gwersi. Mae'r eglwys a'r capel lleol yn adnoddau gwerthfawr i'r ysgol wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau'r Nadolig a'r cynhaeaf. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n unigolion moesol a gwybodus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn llwyddiannus. Gwneir defnydd effeithiol o ymwelwyr i ehangu profiadau creadigol y disgyblion, er enghraifft wrth i gerddorion ymweld â'r ysgol i gyd-gyfansoddi a pherfformio caneuon gyda nhw. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd hyn a hefyd yn y cyfleoedd a gânt i gystadlu mewn eisteddfodau a pherfformio mewn cyngherddau yn eu milltir sgwâr yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder llawer o'r disgyblion ynghyd â'u gallu i gydweithio'n effeithiol. Mae hyn yn hyrwyddo eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain cynnydd y disgyblion. Mae athrawon yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion personol y disgyblion yn gynnar ac yn darparu cymorth amserol a phwrpasol iddynt. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun datblygu unigol effeithiol. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r disgyblion, yr athrawon a'r rhieni. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae gan yr ysgol weithdrefn effeithiol i wella lles emosiynol disgyblion drwy ddarparu sesiynau amlgyfrwng a chymdeithasol i'r sawl sydd eu hangen. Mae'r gweithgareddau hyn yn galluogi'r ychydig iawn o ddisgyblion sydd eu hangen i siarad am eu teimladau mewn grwpiau bach cynhaliol a'u helpu i ddygymod yn dda â'u bywyd dyddiol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi disgyblion ac wrth roi cymorth ac arweiniad pellach i staff.

Mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd drwy lythyron, negeseuon testun a chyfryngau cymdeithasol am weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol yn ogystal â themâu'r tymor. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd iddynt drafod cynnydd a thargedau datblygiad eu plant ac i atgyfnerthu'r hyn y gallant ei wneud i gefnogi eu plant â'u gwaith. O ganlyniad, mae'r rhieni yn teimlo'n rhan o'r ysgol ac yn cydweithio â'r staff yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'n annog disgyblion i fwyta diet iach trwy ddarparu siop ffrwythau bob dydd. Mae'r gwersi nofio, y clwb rhedeg rheolaidd a'r clybiau allgyrsiol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd cadw'n heini yn llwyddiannus. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ofalgar a chefnogol i'r ysgol, sy'n rhoi cyfeiriad strategol clir iddi ac yn ei harwain yn llwyddiannus at ddatblygu lles a safonau da ymysg disgyblion. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n seiliedig ar greu amgylchfyd ac awyrgylch lle y gall disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn

unigolyn hyderus, sy'n ymwybodol o les eraill ac sy'n aelod cyfrifol o'r gymdeithas. Mae'n cyfleu'r weledigaeth yn effeithiol i'r staff, y disgyblion, y llywodraethwyr, y rhieni ac aelodau'r gymuned ehangach. Mae'r gwaith tîm sy'n bodoli yn yr ysgol yn gryfder ac yn sicrhau bod pob un yn cyfrannu'n effeithiol at wireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus.

Mae aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol gan gyflawni eu rolau yn llwyddiannus a chefnogi'r pennaeth yn gydwybodol. Maent yn cyfarfod yn ffurfiol ac yn anffurfiol yn rheolaidd i drafod cynnydd ac amcanion gwella. Mae hyn yn sicrhau bod systemau'r ysgol o ddydd i ddydd yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, nid oes trefniadau wedi'u diffinio'n ffurfiol gan yr ysgol ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau arwain yn absenoldeb y pennaeth.

Mae prosesau rheoli perfformiad yn effeithiol, ac mae'r pennaeth yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn gydwybodol drwy gysylltu blaenoriaethau hyfforddiant gyda blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae hyfforddiant ar y cyd ynghyd â'r parodrwydd i gyd-gynllunio profiadau diddorol gydag ysgolion y dalgylch a'r clwstwr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r staff rannu syniadau. Mae cyfarfodydd cymedroli a safoni gwaith disgyblion gydag ysgolion y clwstwr yn sicrhau cywirdeb a chysondeb wrth adnabod lefelau a chyraeddiadau'r disgyblion. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i staff ymweld ag ysgolion y tu hwnt i'r ardal leol i weld arferion da mewn ysgolion tebyg.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n drwyadl i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae staff yn frwdfrydig wrth fynd i'r afael â datblygiadau diweddar ym myd addysg, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru a chyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol. Enghraifft dda o hyn yw'r thema gyfredol ar 'Y Môr'. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fagu medrau fel dyfalbarhad, canolbwyntio a chydweithio, sy'n cyfrannu'n effeithiol at sicrhau eu bod yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Mae pwyslais amlwg ar hybu'r iaith Gymraeg a datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o Gymreictod yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu hadnabyddiaeth o'u hardal leol a'u safonau yn y Gymraeg.

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i'w blaenoriaethau gwelliant. Mae'n sicrhau bod ffocws clir ar werthuso cynnydd ac adnabod effaith yr addysgu ar ddeilliannau a lles y disgyblion. Adlewyrchir hyn yn y ffordd modd y mae'r ysgol wedi gosod cynllun llwyddiannus ar waith i wella meysydd penodol. Mae'r rhain yn cynnwys codi safonau Saesneg y disgyblion, a mireinio prosesau gwella ansawdd y corff llywodraethol sydd erbyn hyn yn adnabod ac yn deall cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn dda. Trwy ymweliadau cyson a rheolaidd, mae gan y llywodraethwyr wybodaeth am strategaethau addysgu ac maent yn barod i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'n effeithiol er mwyn darparu profiadau dysgu amrywiol a chyfoethog i'w disgyblion. Maent yn neilltuo cyllid yn briodol i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol ac yn monitro gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn elwa o gyfraniadau ariannol gan y gymdeithas rieni ar gyfer prynu adnoddau fel cyfarpar TGCh, sy'n llwyddo i ehangu cyfleoedd i ymateb i ofynion y fframwaith cymhwysedd digidol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/08/2019